**CYFARFOD Y CYNGOR** **21AIN RHAGFYR 2022**

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd ar ran yr aelodau.

**2. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion canlynol y Cyngor a'i bwyllgorau (copi yn amgaeedig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 16eg Tachwedd 2022 | - | Rhifau Cofnod: | 70 – 82 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 16eg Tachwedd 2022 | - | Rhifau Cofnod: | 31 – 33 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 7fed Rhagfyr 2022 | - | Rhifau Cofnod: | 34 - 36 |

I gadarnhau neu fel arall:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 7fed Rhagfyr 2022 | - | Rhifau Cofnod: | 41 - 50 |

**3. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faery n ystod y mis diwethaf (copi'n amgaeedig).

**4. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amageedig).

**5. EITEM GAN AELOD**

Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield i geisio cymeradwyaeth i anfon gwahoddiad i gynrychiolwyr Ardal Gwella Busnes y Rhyl i annerch y Cyngor Tref mewn perthynas â'i lwyddiannau ers iddo gael ei sefydlu.

6. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau canlynol, am resymau cyfrinachedd.

**7. ADRODDIAD AR RYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Yn unol â pholisi mabwysiedig y Cyngor Tref, derbyn adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

**8. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 26ain Medi 2022 | - | Rhifau Cofnod 11 – 17 |
| Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 12fed Rhagfyr 2022 | - | Rhifau Cofnod 29 - 37 |

**9. PROSIECT ERASMUS**

Penderfynu ar adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

**10. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Rhagfyr 2022, cymeradwyo'n ffurfiol argymhellion y gyllideb (copi o'r adroddiad yn amgaeedig), pennu praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a hysbysu Cyngod Sir Ddinbych yn unol â hynny.

**11. CANSLO CYFARFODYDD**

Gofyn yn ffurfiol am gael canslo cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffreidnol i'w ggynnal ar 4ydd Ionawr 2023.

**12. GWYLIAU'R NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Cadarnhau trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgyngoriad gyda'r aelodau canlynol ar gyfer y cyfnod 22ain Rhagfyr 2022 hyd at 18fed Ionawr 2023.

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Maer a/neu Ddirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Pwyllgor CSG | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y pwyllgor CSG |
| Unrhwy fater arall | - | Cadeirydd a/neu is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol |

**13. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.